

Lle cydnerth

Lle sy'n cynnal a gwella amgylchedd bio-amrywiaeth, naturiol gyda systemau-eco gweithredol sy'n cefnogi cadernid cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r capasiti i addasu.

Sefyllfa a gweithredoedd cyfredol

Fel tref arfordirol mae Llanelli yn wynebu heriau arbennig wrth gwrdd â bygythiad newid hinsawdd. Mae ardaloedd y Cyngor Gwledig wedi profi llifogydd yn y gorffennol ac fe'u dynodir o fod mewn perygl yn y dyfodol. Nododd ymgynghoriadau cymunedol bryderon ynglŷn â chynnal a chapasiti mesuriadau atal llifogydd. Mae'r Cyngor Tref yn datblygu Cynllun Argyfwng Cymunedol sy'n dwyn at ei gilydd asiantaethau statudol a chymunedau lleol i roi yn eu lle gyfrifoldebau clir a gweithredu lleol.

Codwyd amrywiaeth o faterion lleol hefyd ynglŷn â mannau gwyrdd ac agored yn amrywio o gynnydd yn y tâl arfaethedig ar gyfer eu defnyddio, datblygu mannau diffaith ar gyfer gwella bio amrywiaeth, a throsglwyddo asedau ac ansawdd darpariaeth bresennol; y cyfan yn pwyntio at yr angen am ddull arloesol wrth fynd i'r afael â'r mater hwn.

Ymyriadau arfaethedig

Wardeiniaid Llifogydd Cymunedol

Mae Gwardeiniaid Llifogydd Cymunedol yn aelodau o'r gymuned leol - unigolion, Cyngorau Tref a Chymuned, Gwarchod y Gymdogaeth neu unrhyw grŵp cymunedol lleol, ac fe'u cefnogir gan awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru (NRW). Bydd y gwirfoddolwyr a enwebwyd yn cofrestru gyda'r Cyngor ac yn dod yn rhan o Gynllun Llifogydd Cymunedol ar gyfer eu hardal. Fe fyddan nhw hefyd yn derbyn rhybuddion am lifogydd yn uniongyrchol oddi wrth NRW ac yn trosglwyddo'r rhain i'w cymdogion.

Ymddiriedolaeth Datblygiad Mannau Agored a Gwyrdd Llanelli (LOGSDT)

Gall ymddiriedolaethau fel hwn ddefnyddio mwy o ryddid i reoli llwyddiant hir dymor parciau a mannau eraill fel sefydliadau elusennol di-elwys yn trosglwyddo (NPDOs). Byddai codi arian trwy ddefnyddiau codi arian a chynhyrchu incwm, rheoli ymgysylltiad cymunedol a chynnal ansawdd yn swyddogaethau allweddol.

Partneriaid – Cyngor Tref, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cynefin, gwasanaethau Argyfwng, Fforwm Llifogydd Llanelli, Adran yr Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin.

Mesuriadau - % o strydoedd/ardaloedd o dan ofal gwardeinaid, gwella'r defnydd o fannau gwyrdd.

Blaenoriaethau Lleol – Llifogydd - Bynea, Dafen, Felinfoel, Ffwrnes, Pwll **Mannau Gwyrdd** – Bynea – gwarchodfa natur Gwndwn Mawr, caeau chwarae Ponthenri, parc plant y Pwll, Swiss Valley – plant hŷn, Felinfoel – ardal chwarae plant iau, Parc Dafen.